

PATAGONIA

CYMRAEG AIL IAITH UWCH GYFRANNOL

CYNNWYS

Hanes a Chefndir y Ffilm	3
Y Stori ym Mhatagonia	5
Y Stori yng Nghymru.....	8
Cymeriadau ym Mhatagonia	11
Y CYMERIADAU YNG NGHYMRU	15
TECHNEGAU FFILMIO	18
THEMÂU	20
SYMBOLAU	23
PARATOI AR GYFER ARHOLIAD.....	25

HANES A CHEFNDIR Y FFILM

Mae'r ffilm Patagonia wedi ei leoli yng Nghymru ac yn y Wladfa ym Mhatagonia. Mae'r cysylltiad rhwng Cymru a Phatagonia wedi bodoli ers dros ganrif, a dyma un o brif themâu'r ffilm.

Y WLADFA

Hwylodd Ilong o'r enw Y Mimosa o Lerpwl i Batagonia ym 1865, gyda 153 O Gymry yn ar ei bwrdd. Cafodd gymdeithas Gymraeg ei sefydlu ym Mhatagonia, ac roedd capeli ac eisteddfodau yn rhan fawr o fywyd bob dydd. Mae'r gymdeithas Gymreig yma'n cael ei galw'n Wladfa.

Er fod y niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn gostwng, mae cymuned Gymraeg yn dal i fodoli ym Mhatagonia, ac mae cymdeithasau ac ysgolion Cymraeg yno.

RHYFEL Y MALVINAS

Mae Ynysoedd y Malvinas (neu'r Falklands) yn agos at Argentina, ond maen nhw wedi bod dan reolaeth Prydain ers 1841.

Ym 1982, ceisiodd fyddin Argentina ennill yr ynysoedd yn ol, a dechreuodd ryfel y Malvinas. Lladdwyd 907 o bobol - y rhan fwyaf ohonynt o Argentina - cyn i'r ynysoedd ddychwelyd i reolaeth Prydain.

Roedd rhyfel y Malvinas yn un a rwygodd farn pobl dros y byd, gyda phobol yn trafod effeithiau'r hen ymerodraeth Brydeinig, pan roedd pobol o Brydain yn teithio dros y byd ac yn hawlio tir mewn gwledydd eraill.

BODDI CAPEL CELYN

Ym 1965, cafodd pentref bach Capel Celyn ei boddi er mwyn rhoi dŵr i ardal Lerpwl. Roedd hyn yn cynnwys ysgol, swyddfa'r post, capel, mynwent a nifer o dyddynnod a thai.

Mae boddi Cwm Celyn yn cael ei ystyried fel trobwynt yn hanes modern Cymru, a'r ymateb wedi arwain at ddechrau mudiadau cenedlaetholgar sy'n bodoli hyd heddiw.

adleoli- relocate

gwladfa- colony

bodoli- exist

imperialaeth- imperialism

boddi- drown

mynwent- cemetery

cyflenwi- supply

cronfa ddwr- reservoir

tyddynnod- homesteads

cenedlaetholgar- nationalist

gwladfa- settlement

Y STORI YM MHATAGONIA

CRYNODEB BRAS

Mae'r ffilm yn dilyn taith ffotograffydd o'r enw Rhys, sy'n ymweld â Phatagonia gyda'i gariad, Gwen. Mae'n mynd i dynnu lluniau hen gapeli Patagonia.

Maen nhw'n cwrdd â Matteo, eu tywysydd, sydd yn un o Gymry Patagonia. Rydyn ni'n cael gwybod am y problemau ym mherthynas Gwen a Rhys, a fod Gwen ddim yn gallu cael plant.

Yn ystod y daith, mae'r gwahaniaethau yn amlwg rhwng Rhys a Gwen, ac mae hi'n agosau at Matteo. Pan fydd Gwen yn credu fod Rhys wedi mynd a'i gadael, mae'n cysgu gyda Matteo.

Ar ôl gwahanu, mae Rhys am orffen ei waith a mynd adref. Mae Gwen yn gwrthod cynnig Matteo i aros gydag o, ac yn mynd i grwydro ar ei phen ei hun. Mae Rhys yn dod i chwilio amdani.

DATBLYGIAD Y STORI

Ar ddechrau'r ffilm, mae'r gwahaniaethau rhwng Gwen a Rhys yn amlwg: Mae Rhys yn mynd ar y trip er mwyn gweithio, tra bod gyrfa Gwen yn teimlo braidd yn ddiflas.

Sut mae hyn yn effeithio ar ddatblygiad y stori?

Mae Matteo a Rhys yn gymeriadau gwahanol iawn- Mae Rhys yn drefnus iawn, a Matteo yn fwy ymlaciedig.

Rhestrwch enghreifftiau o'r gwahaniaethau rhwng Matteo a Rhys.

Mae cymeriad Martin yn un cymhleth ac anodd, ac er mai dim ond am gyfnod byr y mae'n ymddangos yn y ffilm, mae'r delweddau ohono'n rhai cryf.

Beth yw pwrpas cymeriad Martin?

Sut mae'n yn dylanwadu ar ddiwedd y ffilm?

Mae'r ffilm yn gorffen heb i ni wybod beth yw diwedd stori Rhys a Gwen. Mae'r ddau ar fin cyfarfod eto ar ôl gwahanu.

Pam fod y ffilm yn gorffen fel hyn? Beth, yn eich barn chi, fyddai'n digwydd nesaf?

Mae'r olygfa yma yn bwysig yn natblygiad y ffilm gan ei fod yn gam ymlaen ym mherthynas Matteo a Gwen. Mae'r ddau yn rhannu sigarét- symbol o ryddid Gwen- ac yn trafod stori Blodeuwedd.

Mae Rhys yn yr olygfa hefyd, ond gan ei fod yn gweithio, mae ar y cyrion.

Beth mae Matteo yn ei olygu pan mae'n dweud, "Efallai bod angen adenydd ar ferch fel 'na?"

Yng nghartref Matteo, mae Matteo'n gofyn i Gwen aros. Gellid dadlau fod hwn yn bwynt pwysig yn y ffilm, gan fod Matteo'n awgrymu ei fod yn awyddus i gael perthynas hirdymor gyda Gwen.

Pam fod Matteo yn aros tan iddo ddychwelyd i'w gartref cyn gofyn i Gwen aros?

Yn eich barn chi, pam nad yw Gwen yn aros?

Pam ei bod yn gadael heb ffarwelio yn fuan wedi'r sgwrs yma gyda Matteo?

Mae Rhys yn gofyn i Martin os ydi o eisiau brecwast. Mae'r olygfa hon yn dangos ochr newydd i gymeriad Rhys. Cyn y pwynt yma, mae wedi bod yn ofalus a phwyllog a gweithgar iawn- ond mae'n cymryd risg wrth gynnig brecwast i Martin, sydd eisoes wedi profi ei fod yn annibynadwy a pheryglus.

Pam fod Rhys am dreulio amser gyda rhywun sydd wedi bygwth ei frifo?

Beth sydd wedi achosi'r newid yma yn Rhys?

tywysydd- guide

cydnaws- compatible

ymlaciedig- relaxed

crwydro- wander

gyrfa- career

nwydus- passionate

hirdymor- long-term

ysgogi- motivate

annibynadwy- unreliable

penagored- open-ended

dylanwadu- affect

rhwystredig- frustrated

Y STORI YNG NGHYMRU

CRYNODEB BRAS

Mae Cerys, hen wraig o Batagonia, a'i chymydog ifanc Alessandro, yn dod i Gymru gan fod Cerys eisiau ymweld â Thyddyn Briallu, hen gartref ei theulu.

Mae Cerys ac Alessandro yn mynd i Gaerdydd. Mae Alessandro yn cael noson allan gyda ffrindiau newydd, a Cerys yn ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru.

Maen nhw'n ymweld â dau le o'r enw Tyddyn Briallu, ond nid y rheiny oedd cartref teuluol Cerys.

Mae Cerys ac Alessandro yn cyrraedd glan llyn, ac yn cwrdd â chymeriad Sissy.

Cawn wybod fod Tyddyn Briallu wedi ei foddi pan gafodd argae llyn Tryweryn ei adeiladu.

Mae Cerys yn marw wrth eistedd ar fainc ar lannau'r llyn. Mae ei chorff yn cael ei roi ar gwch, a'i amlosgi ynghanol y llyn.

Mae Alessandro'n dechrau ar ei daith adref.

Yn nechrau'r stori, dydy Alessandro ddim yn gwybod ei fod yn mynd dramor.

- Pam na ddywedodd Cerys wrth Alessandro am ei chynlluniau o flaen llaw?

Tra yng Nghaerdydd, mae Alessandro'n cael llawer i'w yfed ac yn cael noson allan ynghanol y ddinas.

- Sut mae'r noson allan yn effeithio ar gymeriad Alessandro?

Pan fydd Cerys yn ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru, mae delwedd drawiadol iawn ohoni yn pasio dynes mewn gwisg draddodiadol Cymreig.

- Ydych chi'n meddwl fod hyn yn symbol o berthynas Cerys gyda Chymru? Ydi hi'n caru'r ddelwedd hen ffasiwn yn hytrach na'r Gymru fodern?

Wrth chwilio am Dyddyn Briallu, mae Cerys ac Alessandro yn cael siwrnai wyllt mewn car ac yn cael eu gadael ar fuarth fferm ynghanol nunlle.

- Sut mae cael eu gadael ar fferm mewn gwlad ddieithr yn effeithio ar ddatbygiad cyfeillgarwch Cerys ac Alessandro?

Mae Alessandro a Cerys yn aros yng nghartref Kate a Dave tra'n chwilio am Dyddyn Briallu.

- Sut mae perthynas Cerys a Kate yn newid y stori? Ydych chi'n meddwl fod y rhan yma'n elfen bwysig o'r stori?

Mae'r tipi ar lan y llyn yng Nghymru yn ein hatgoffa o Batagonia.

- Sut mae hyn yn effeithio ar awyrgylch y golygfeydd sy'n dilyn?

Mae Alessandro a Sissy yn llenwi'r gwch gyda blodau cyn amlosgi corff Cerys.

- Beth mae hyn yn ei ddangos am ddatblygiad cymeriad Alessandro? Sut mae'n plethu gyda themâu eraill y ffilm?

Fel stori Rhys a Gwen, mae'r ffilm yn gorffen heb ddiwedd pendant i stori Alessandro.

- Beth ydych chi'n meddwl fyddai'n digwydd nesaf i gymeriad Alessandro?

amlosgi- cremate

buarth- farmyard

delwedd- image

gwrthdaro- conflict

pryder- worry

cyfrifoldeb- responsibility

CYMERIADAU YM MHATAGONIA

RHYS

Ffotograffydd yw Rhys, sy'n mynd i Batagonia i dynnu lluniau o hen gapeli. Mae ei gariad, Gwen, yn dod gydag ef, ac mae perthynas y ddau yn newid.

Mae tynnu ffotograffau'n bwysig iawn i Rhys. Ambell dro, fe fydd yn dewis rhoi ei ffocws ar waith yn hytrach na threulio amser gyda Gwen.

Ystyriwch ymateb Rhys pan mae'n colli ffilm o'i gamera. Sut mae hyn yn cymharu â'r ffordd mae'n ymateb i Gwen?

Ar ôl iddo adael Gwen gyda Matteo, mae Rhys yn cwrdd â Martin ac, ar ôl noson allan, mae Martin yn trio dwyn ei fag ac yn ei fygwth a chylllell.

Pam fod Rhys yn maddau i Martin am ymddwyn mor fygythiol tuag ato? Ydi hyn yn dangos datblygiad yng nghymeriad Rhys?

Mae'n teimlo fel petai pethynas Rhys a Gwen wedi dod i ben ar ôl i Gwen gysgu gyda Matteo. Bwriad Rhys yw dychwelyd i Gymru.

Pam fod Rhys yn newid ei feddwl ac yn aros ym Mhatagonia?

Dychmygwch sgwrs Rhys a Gwen pan maen nhw'n cwrdd â'i gilydd yn y caffi.

Pan fydd Gwen yn aros yn y bar gyda Matteo a'i ffrindiau, mae Rhys yn gadael. Yna, mae Gwen yn dychwelyd ac yn awgrymu gem chwarae rôl. Mae Rhys yn ei throi i lawr.

Pam fod Rhys yn gadael y bar? Pam nad yw eisiau chwarae'r gêm chwarae rôl gyda Gwen? Beth mae hyn yn ei ddangos am ei gymeriad?

GWEN

Mae Gwen yn actores sy'n gweithio yn Amgueddfa Werin Cymru tra'n aros am swydd actio. Mae'n dewis mynd i Batagonia gyda Rhys, ei chariad.

Yn nechrau'r ffilm, mae Gwen yn dangos arwyddion o anfodlonrwydd.

**Beth ydych chi'n meddwl am sefyllfa bywyd Gwen ar ddechrau'r ffilm?
Sut mae'n teimlo am ei bywyd?**

Ar ôl noson o yfed a dawnsio mewn bar ym Mhatagonia, mae Rhys yn awgrymu priodi.

Yn eich barn chi, pam nad yw Gwen eisiau priodi Rhys?

Yn y ffilm, mae Gwen yn datgan nad ydi'n medru cael plant.

Pa effaith ydych chi'n meddwl y cafodd hyn ar gymeriad Gwen, a'i hymddygiad tra roedd hi ym Mhatagonia?

Ar ôl cysgu gyda Matteo, mae Gwen yn dweud ei bod hi'n meddwl fod Rhys wedi mynd a'i gadael.

Ydych chi'n credu fod Gwen yn dweud y gwir?

MATTEO

Mae Matteo'n ddyn o Batagonia sydd yn helpu Rhys gyda'i daith yn y wlad.

Yn eich barn chi, pam fod Rhys yn gwneud hyn? Beth mae'n ei ddweud am ei gymeriad?

Pan mae Gwen yn disgrifo cymeriad Blodeuwedd i Matteo, mae o'n ymateb, *"Efallai bod angen adennydd ar ferch fel 'na."*

Beth mae Matteo yn ei olygu yma? Sut ydych chi'n meddwl fod Gwen yn teimlo o glywed hyn?

Ar ôl i Rhys adael Gwen, mae Matteo'n mynd a hi i'w gartref. Mae'n gofyn i Gwen a hoffai aros yno gydag o am ychydig.

Ydych chi'n synnu fod Matteo'n gofyn i Gwen aros? Ydych chi'n meddwl fod ei berthynas a Gwen wedi newid Matteo?

MARTIN

Mae Martin yn gymeriad sy'n ymddangos mewn rhan o'r ffilm sy'n emosiynol ac yn llawn tensiwn.

Beth yw eich argraff gyntaf o Martin? Yn eich barn chi, pam ei fod o mor hapus i weld Cymro?

Mae Martin yn gyn-filwr o ryfel y Malvinas.

Sut ydych chi'n meddwl yr effeithiodd y rhyfel ar Martin? Sut ddyn ydych chi'n dychmygu oedd Martin cyn y rhyfel?

Mae Rhys a Martin yn clywed dynion yn canu'r emyn Gymraeg, Rho Im Yr Hedd. Dyma'r geiriau:

"Rho im yr hedd na wŷr y byd amdano,
hedd, nefol hedd, a ddaeth drwy ddwyfol loes;
pan fyddo'r don ar f'enaid gwan yn curo
mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes."

Pam fod Martin yn llefain wrth glywed hyn?

Anghennus- needy

Bygythiol- threatening

Dychmygwch- imagine

anfodlonrwydd- dissatisfaction

llefain- cry

bodlon- satisfied

CYMERIADAU YNG NGHYMRU

CERYS

Ar ddechrau'r ffilm, mae Cerys yn llonydd iawn ac yn gwranddo ar sgwrs pobl eraill.

Beth yw ein hargraff gyntaf o Cerys?

Pam fod Cerys yn dewis mynd ag Alessandro i Gymru?

Mae Cerys ac Alessandro'n cael aros gyda Kate a Dave wrth chwilio am Dyddyn Briallu.

Sut mae Cerys yn ymateb i Kate? Yn eich barn chi, pam fod Cerys yn ymateb fel hyn?

Mae Cerys yn dioddef o glefyd siwgr. Mae wedi dweud wrth Alessandro y byddai'n mynd i goma heb foddion.

Ydych chi'n meddwl fod Cerys wedi penderfynu peidio a chymryd y moddion, ac mai dyna sut mae'n marw?

ALESSANDRO

Ar ddechrau'r ffilm, mae Alessandro yn ddyn petrus sydd ofn pob dim.

Sut mae Alessandro yn newid yn y ffilm?

Pam ei fod o'n newid?

Mae Alessandro yn mynd am noson allan gyda ffrindiau newydd yng Nghaerdydd.

Sut mae Alessandro yn ymateb i hyn? Sut mae'r technegau ffilmio yn ein helpu i ddeall teimladau Alessandro?

Wrth chwilio am Dyddyn Briallu, mae Alessandro yn gofyn am help gan griw o bobol ifanc swnllyd.

Beth mae hyn yn ei ddangos am faint mae Alessandro wedi newid?

SISSY

Mae Alessandro yn gweld Sissy am y tro cyntaf mewn clwb nos yng Nghaerdydd, ble mae hi'n gorfod cael cymorth mewn ambiwlans.

Beth yw argraff gyntaf Alessandro o Sissy?

Mae Sissy yn helpu ei hewythr, Wil, gyda'r tipis.

Beth ydym ni'n gwybod am berthynas Sissy ac Yncl Wil?

Sut gefndir ydych chi'n meddwl sydd gan Sissy?

Meddyliwch am yr olygfa ryw rhwng Sissy ac Alessandro.

Sut mae eu perthynas yn newid yma?

Ydych chi'n meddwl fod teimladau Sissy tuag at Alessandro yn newid?

Y PERTHNASAU RHWNG Y CYMERIADAU

- Sut mae perthynas Cerys ac Alessandro yn newid yn ystod y ffilm?
- Mewn caffi yng Nghymru, mae Alessandro a Cerys yn sgwrsio am lyfr dirgelwch mae Alessandro yn ei ddarllen.

CERYS: Sut all fod yn ddirgelwch os wyt ti wedi ei ddarllen o'r blaen?

Beth mae hyn yn ei ddweud am y gwahaniaethau rhwng Cerys ac Alessandro?

Pwy ydych chi'n meddwl yw'r cymeriad cryfaf- Sissy neu Alessandro?

argraff gyntaf- first impression

clefyd siwgr- diabetes

moddion- medicine

petrus- tentative

dihyder- unconfident

mewnblyg- introverted

ymlacio- relax

hyderus- confident

TECHNEG AU FFILMIO

Mae'r ffilm yn dechrau gyda sŵn tonnau ac emyn Calon Lân.

Pa effaith mae hyn yn ei gael?

Ydych chi'n meddwl ei fod yn effeithiol?

Mae dechrau'r ffilm yn dangos natur.

Pam fod y ffilm yn dechrau fel hyn?

Ydy'r clipiau ar ddechrau'r ffilm yn dangos Cymru neu Batagonia?

Dyma ddelwedd bwerus o Gwen yn gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig wrth siarad ar y ffôn.

Beth ydych chi'n meddwl o'r gwrthgyferbyniad rhwng yr hen ffasiwn a'r modern yma?

Gwylwch y fideo. Mae'n dangos breuddwyd Gwen.

Sut mae'n gwneud i ni deimlo?

Ydych chi'n hoffi'r rhan yma? Pam?

Beth mae'n ei ddweud am gymeriad Gwen?

Gwylwch y fideo. Mae'n dangos noson Alessandro yng Nghaerdydd.

Mae gwrthgyferbyniad rhwng y delweddau a'r gerddoriaeth. Pa effaith mae hyn yn ei gael?

Gwylwch y fideo. Mae'n dangos Cerys yn y fynwent.

Sut mae'r clip yn dangos stad feddyliol Cerys?

Sut mae sŵn lleisiau'r plant yn effeithio ar yr olygfa?

mynwent- cemetery

gwrthgyferbyniad- contrast

awyrgylch- atmosphere

THEMÂU

Y GYMRAEG

Mae'r ffilm yn ddwyieithog- Cymraeg a Sbaeneg.

Mae'r Gymraeg yn gysylltiad rhwng rhai cymeriadau, er eu bod yn dod o wledydd gwahanol.

Sut mae'r Gymraeg yn effeithio ar berthynas Martin a Rhys?

Mewn caffi yng Nghymru, mae Cerys yn esbonio pam nad yw'n medru siarad Cymraeg.

Sut mae Cerys yn teimlo am hyn?

Beth yw perthynas Cerys gyda'r iaith Gymraeg?

Mae bron pawb mae Alessandro a Cerys yn cwrdd â nhw yng Nghymru yn siarad Cymraeg.

Ydi'r portread yma o'r Gymraeg yn un realistig?

Yn y rhan yma, mae Yncl Wil yn trafod Capel Celyn. Dydy Sissy ddim yn cyfieithu beth mae Wil yn ei ddweud yn gywir.

Pam fod Sissy yn gwneud hyn?

Beth fyddai barn Alessandro petai'n gwybod?

CARIAD

Mae perthynas Rhys a Gwen yn newid yn ystod y ffilm.

Pam? Ydych chi'n meddwl fod Rhys a Gwen yn siwtio'i gilydd?

Oes arwyddion fod Gwen a Matteo yn ffansio'i gilydd cyn iddyn nhw gael rhyw?

Ydych chi'n meddwl bod y ddau yn syrthio mewn cariad?

Mae Alessandro yn gweld Sissy mewn clwb nos yng Nghaerdydd, ond dydyn nhw ddim yn dod i adnabod ei gilydd tan wedyn.

Sut mae'r ffaith fod Alessandro wedi gweld Sissy yng Nghaerdydd yn newid ei deimladau tuag ati?

Ydych chi'n meddwl y bydd perthynas Alessandro a Sissy yn parhau ar ôl i Alessandro adael?

Mae Gwen yn cysgu gyda Matteo, ac yn dweud ei bod hi'n credu fod Rhys wedi ei gadael.

Ydych chi'n credu Gwen? Oedd hi wir yn credu fod Rhys wedi mynd?

Ydi Gwen yn bod yn anffyddlon yma?

HANES

Mae Gwen yn gweithio yn Amgueddfa Werin Cymru cyn mynd i Batagonia, ac yn gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig.

Sut mae Gwen yn newid ar ôl gadael y swydd? Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n hapus yn gweithio yna?

Y rheswm dros fynd i Batagonia yw i Rhys gael tynnu lluniau hen gapeli. Mae'r rhan fwyaf o'r capeli yn wag bellach.

Pam fod Rhys yn meddwl fod hanes hen gapeli Patagonia yn bwysig? Beth mae hyn yn ei ddweud am gymeriad Rhys?

Mae Cerys yn mynd i Gymru i chwilio am ei hen gartref teuluol, er nad ydi hi wedi bod i Gymru o'r blaen.

Pam fod Cerys yn mynd i Gymru?

Ydych chi'n meddwl fod Cymru fel roedd hi'n ei disgwyl?

Mae cysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru a Phatagonia.

Pa mor bwysig yw'r rhain i'r ffilm?

dwyeithog- bilingual

cysylltiadau- connections

SYMBOLAU

NATUR

Mae cefn gwlad Cymru a Phatagonia'n wahanol iawn i'w gilydd.

Sut mae tirwedd y ddwy wlad yn wahanol?

Beth yw effaith hyn ar y ffilm?

Meddyliwch am y rhannu o'r ffilm sy'n digwydd yng nghanol y wlad. Fel:

- pan mae car Matteo'n torri lawr ar y paith;
- pan mae Alessandro a Cerys yn cael eu gadael ar fferm ddieithr;
- pan mae Matteo a Gwen yn gwyllo'r sêr;
- ar lan llyn Tryweryn.

Sut mae natur yn adlewyrchu teimladau'r cymeriadau yn y golygfeydd yma?

IAITH

Mae Cerys yn mynd i Gymru, lle y mae'n teimlo cysylltiad agos ato. Ond dydy Cerys ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg, dwy iaith Cymru.

Pa effaith mae hyn yn ei chael ar daith Cerys?

Ydi hi'n teimlo'n gartrefol yng Nghymru?

Mae Rhys yn colli'r ffilm o'i gamera. Mae'n ceisio holi pobl amdano, ond mae'n cael trafferth am nad yw'n siarad yr iaith. Mae wedi dibynnu ar Matteo i siarad drosto.

Ydi hyn yn symbol o deimladau Rhys?

Ydi o wedi colli rheolaeth mewn rhannau eraill o'i fywyd?

Mae'n anodd i Alessandro gyfathrebu yng Nghymru gan nad yw'n deall Cymraeg na Saesneg. Ond mae'n gallu siarad gyda Sissy, gan ei bod hi'n siarad Sbaeneg.

Sut mae hyn yn effeithio ar eu perthynas?

BLODEUWEDD

Mae Blodeuwedd yn stori chwedlonol o Gymru. Dyma rai o'r pethau sy'n digwydd yn y stori.

- Mae Blodeuwedd yn ferch sy'n cael ei chreu o flodau er mwyn bod yn wraig i Lleu.
- Mae'n syrthio mewn cariad â dyn arall, Gronw. Mae Blodeuwedd a Gronw yn cynllwynio i ladd Lleu. Yn lle marw, mae Lleu'n troi'n eryr.
- Mae Gwydion, y dewin, yn cosbi Blodeuwedd am ei anffyddlondeb drwy ei throi yn dylluan.

Beth yw'r

tebygrwydd rhwng stori Blodeuwedd a stori ffilm Patagonia?

Mae llawer o flodau yn y ffilm. Pam ydych chi'n meddwl fod Blodeuwedd yn symbol mor bwysig yma?

dibynnu- rely

cyfathrebu- communicate

chwedlonol- folklore

cynllwynio- plot

anffyddlondeb- unfaithfulness

tylluan- owl

PARATOI AR GYFER ARHOLIAD

Dyma esiamplau o ffyrdd o ddweud eich barn mewn arholiad llafar am Batagonia. Cofiwch roi eich barn a dweud pam.

Mae'r bobol yma'n siarad am gymeriad Gwen.

Rydw i'n meddwl fod Gwen yn drist am nad yw'n medru cael plant. Dyna pam nad yw hi am briodi Rhys.

Rydw i'n anghytuno. Dwi ddim yn meddwl fod Gwen yn caru Rhys.
fod Gwen yn caru Rhys.

Yn fy marn i, mae Gwen yn greulon gyda Rhys. Mae hi wedi diflasu gyda'i bywyd am nad ydi'n hoffi ei swydd. Mae'n defnyddio Matteo i wneud iddi hi ei hun deimlo'n well.

Rydw i'n teimlo bechod dros Gwen. Mae'n anhapus yn ei bywyd, ac mae Patagonia fel paradwys iddi.

Yn fy marn i, mae Matteo yn fwy o hwyl na Rhys.

Rydw i'n meddwl fod Gwen angen amser ar ei phen ei hun, achos dydy hi ddim eisiau aros gyda Matteo, ond dydy hi ddim yn edrych yn hapus iawn i weld Rhys ar ddiwedd y ffilm, chwaith.